Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Gwobr Goffa Eirian Llwyd

## Arian i helpu artistiaid gwneud printiau



Artist: Lea Sautin

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Ganllawiau Gwobr Goffa Eirian Llwyd**'.**

**Ebrill 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 13**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru.** I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** https://arts.wales/cy

**E-bost:** grants@arts.wales

**Ffôn:** 03301 242733

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Gwybodaeth hawdd ei deall

Mae **gwybodaeth hawdd ei deall** yn wybodaeth y gallwch chi ei deall a'i defnyddio. Er enghraifft, mae dogfennau Hawdd ei Ddeall yn **wybodaeth hawdd ei deall.**



Mae arnon ni eisiau i chi fedru deall a defnyddio ein holl wybodaeth.



Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn ffordd wahanol, cysylltwch â ni.



Er enghraifft, os oes arnoch chi eisiau'r ddogfen mewn Cymraeg.



Os oes arnoch chi angen help â'ch cais, e-bostiwch ni yn grants@arts.wales.

# Cynnwys

**Tudalen**


Gwybodaeth hawdd ei deall ............................................. 3

Ynglŷn â'r ddogfen hon..................................................... 5

Pwy sy'n gallu gwneud cais ............................................... 6

Ar gyfer pwy mae'r arian hwn ........................................... 7

Y pethau y byddwn ni'n talu amdanyn nhw ...................... 8

Y pethau sydd eu hangen arnon ni .................................... 9

Sut i wneud cais ............................................................... 11

Sut i gael mwy o help ...................................................... 12

Geiriau anodd................................................................... 13

# Ynglŷn â'r ddogfen hon

**Cyngor Celfyddydau Cymru** ydyn ni.



Mae gennym ni **wobr** sy'n cael ei galw'n **Wobr Goffa Eirian Llwyd.**

Mae **gwobr** yn arian y gall pobl ei gael i'w helpu i wneud eu gwaith.



Mae **Gwobr Goffa Eirian Llwyd** yn arian i helpu artistiaid **gwneud printiau** yng Nghymru.



Mae **gwneud printiau** yn fath o waith celfyddyd. Mae artistiaid yn printio eu gwaith celfyddyd ar bapur, defnydd, neu ddeunyddiau eraill.



Gall orielau a chanolfannau printio ddewis artistiaid maen nhw'n meddwl y dylai gael y **wobr** hon. Ac yna gwneud cais am y **wobr** ar eu cyfer.

# Pwy sy'n gallu gwneud cais



Os ydych chi'n oriel neu'n ganolfan brintio yng Nghymru gallwch wneud cais am y **wobr** hon.



Mae'n rhaid bod gennych chi offer gwneud printiau y gall artistiaid ddefnyddio.



Gallwch ddewis dau artist rydych chi'n meddwl y dylai gael y **wobr** hon. Ond dim ond un artist y gallwn ni ddewis i'w helpu.



Buasen ni'n hoffi helpu myfyrwyr **amrywiaethol** yn enwedig.

Mae **amrywioldeb** yn meddwl nad yw pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau, neu'n dda am wneud gwahanol bethau.



Er enghraifft, buasen ni'n hoffi helpu artistiaid **gwneud printiau** sydd ag anabledd.

# Ar gyfer pwy mae'r arian hwn



Mae'r **wobr** hon ar gyfer artistiaid sy'n **gwneud printiau** i greu eu gwaith celfyddyd.

**Mae'n rhaid i'r artist rydych chi'n ei ddewis:**



- Fod yn Gymro neu wedi'i leoli yng Nghymru. Ac mae'n rhaid bod arno eisiau aros a gweithio yng Nghymru.



- Bod yn artist **gwneud printiau**.



- Bod yn artist arbennig o dda. A bod yn angerddol am eu gwaith.

# Y pethau y byddwn ni'n talu amdanyn nhw




Gallwn ni roi £2500 am flwyddyn i bob artist **gwneud printiau**.



Dylai'r arian helpu'r artist i barhau i wneud ei waith.

**Gallai'r arian gael ei ddefnyddio i:**



- rentu lle i weithio ynddo



- talu am gyngor gan artist arall



- prynu offer

# Y pethau sydd eu hangen arnon ni

**Mae arnoch chi angen anfon aton ni:**



Enw a chyfeiriad e-bost y myfyriwr y gwnaethoch chi ei ddewis.



Datganiad ysgrifenedig yn dweud wrthyn ni pam y gwnaethoch chi ddewis y myfyriwr hwn. Ni ddylai eich datganiad fod yn fwy na 500 gair.



C.V. y myfyriwr a datganiad ysgrifenedig ganddo.



6-8 delwedd o waith y myfyriwr.



Os yw gwaith yr artist yn ymwneud â ffilmio neu berfformio, anfonwch bum munud o'u gwaith aton ni.





Gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon cyfrineiriau sydd eu hangen arnon ni i weld eu gwaith.



Dylech chi anfon yr holl wybodaeth hon trwy e-bost. Dylai fod mewn un ffeil Word neu PDF.



Ni ddylai'r testun fod dim llai na phwynt 12 mewn maint.



Dylai'r ffeil Word neu PDF fod dim mwy na 250 MB.



Byddwn yn edrych ar bopeth rydych chi'n eu hanfon aton ni. Yna byddwn yn penderfynu i bwy y byddwn ni'n rhoi'r **wobr**.

# Sut i wneud cais

Ewch i wefan **Cyngor Celfyddydau Cymru** yn: https://arts.wales/cy/ariannu/gwneud-cais




Ar y wefan, cliciwch ar **unigolion.** Yna cliciwch ar **Wobr Goffa Eirian Llwyd.**



Anfonwch eich cais at y cyfeiriad e-bost ar ein gwefan.




Bydd arnoch chi angen atodi yr holl wybodaeth o ran **Y pethau sydd eu hangen arnon ni**.

Mae hefyd mwy o wybodaeth ar ein gwefan os bydd ei hangen arnoch chi.

# Sut i gael mwy o help

Os oes arnoch chi eisiau help â'ch cais, e-bostiwch ein **tîm gwybodaeth a grantiau** yn: grants@arts.wales

**Gallwch hefyd gysylltu â ni ar:**

**Ffôn:** 03301 242733

Codir pris galwad lleol. Rydyn ni ar agor o:

9.00am – 5.00pm, dydd Llun – dydd Iau

9.00am – 4.30pm, dydd Gwener

**Twitter:** Anfonwch drydar aton ni **@Arts_Wales_**

**Instagram:** @celfcymruarts

**Facebook:** Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales

**Gwefan:** https://arts.wales/cy

# Geiriau anodd

## Gwneud printiau

Mae gwneud printiau yn fath o waith celfyddyd. Mae artistiaid yn printio eu gwaith celfyddyd ar bapur, defnydd, neu ddeunyddiau eraill.

## Gwobr

Mae gwobr yn arian y gall pobl ei gael i'w helpu i wneud eu gwaith.

## Gwybodaeth hawdd ei deall

Mae gwybodaeth hawdd ei deall yn wybodaeth y gallwch chi ei deall a'i defnyddio. Er enghraifft, mae dogfennau Hawdd ei Ddeall yn wybodaeth hawdd ei deall.